
# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.**


Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Adran Gwaith
a Phensiynau



# Costau tai a gwresogi

Mae'r daflen hon yn cynnwys wybodaeth a ddewiswyd o **www.gov.uk** ar 26 Ebrill 2018. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar-lein. Mae'r daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig ac ni ddylid dibynnu arno fel datganiad llawn o'r gyfraith yn y maes hwn.




## Cynnwys



| | |
|---|---|
| Budd-dal Tai | 3 |
| Cymorth ar gyfer Llog Morgais | 9 |
| Gostyngiad yn eich Treth Cyngor | 12 |
| Taliadau Tywydd Oer | 12 |
| Taliadau Tanwydd Gaeaf | 13 |


Argraffwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio'r testun a gymerwyd o **www.gov.uk** ar 26 Ebrill 2018

© Hawlfraint y Goron

ISBN 978-1-78659-056-5

**DWP18W** (Mai 2018)



**Codau QR**

Dyma godau bar sgwâr sy'n agor gwefan benodol, gan arbed i chi deipio cyfeiriadau gwe hir.

Gallwch gael ap am ddim i sganio codau QR ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar.

## Budd-dal Tai

www.gov.uk/housing-benefit

Gallech gael Budd-dal Tai i'ch helpu i dalu eich rhent os ydych ar incwm isel.

Gall Budd-dal Tai talu am ran neu'r cyfan o'ch rhent. Mae faint rydych chi'n ei gael yn dibynnu ar eich incwm a'ch amgylchiadau.

Gallwch wneud cais am Fudd-dal Tai os ydych yn ddi-waith neu'n gweithio.

Efallai gallwch hefyd gael help gyda'ch rhent os bydd eich budd-daliadau yn dod i ben.

Ni all Budd-dal Tai gael ei dalu ar gyfer gwresogi, dŵr poeth, ynni neu fwyd - os bydd angen help arnoch, defnyddiwch gyfrifiannell budd-daliadau i weld beth arall y gallech fod â hawl i'w gael. Cewch ragor o wybodaeth yn **www.gov.uk/benefits-calculators**

### Yr hyn a gewch

Efallai y gallwch gael help gyda'ch rhent i gyd neu ran o'ch rhent. Nid oes swm penodol o Fudd-dal Tai a bydd yr hyn a gewch yn dibynnu ar p'un a ydych yn rhentu'n breifat neu gan gyngor.

Defnyddiwch gyfrifiannell budd-daliadau i weld yr hyn y gallwch ei gael neu ba help ychwanegol sydd ar gael.

### Rhent cyngor a thai cymdeithasol

Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar:

- eich rhent 'cymwys'
- os oes gennych ystafell sbâr
- incwm eich cartref - gan gynnwys budd-daliadau, pensiynau a chynilion (dros £6,000)
- eich amgylchiadau, er enghraifft oed y bobl yn y tŷ, neu os oes gan rywun anabledd

### Rhent cymwys

Rhent cymwys yw'r rhent rhesymol ar gyfer eiddo addas yn eich ardal. Mae'n cynnwys taliadau gwasanaeth (e.e. ar gyfer cynnal a chadw lifft neu wasanaeth golchi dillad cymunedol) ond nid pethau fel gwresogi.

## Ystafelloedd gwely sbâr

Gallai eich Budd-dal Tai cael ei gostwng os ydych yn byw yn dai cyngor neu gymdeithasol ac mae gennych ystafell wely sbâr. Y gostyngiad yw:

- 14% o'r 'rhent cymwys' ar gyfer 1 ystafell wely sbâr
- 25% o'r 'rhent cymwys' ar gyfer 2 neu fwy o ystafelloedd gwely sbâr

## Enghraifft o fudd-dal tai gostyngedig

Eich rhent cymwys yw £100 yr wythnos. Mae Budd-dal Tai yn talu £50 ac rydych chi'n talu £50. Mae gennych 1 ystafell wely sbâr, felly'r gostyngiad yw 14%. Mae hyn yn golygu y bydd eich Budd-dal Tai yn cael ei leihau £14 yr wythnos.

## Rhannu ystafelloedd gwely

Disgwylir i'r canlynol rhannu:

- cwpl sy'n oedolion
- 2 blentyn o dan 16 oed o'r un rhyw
- 2 blentyn o dan 10 oed (waeth beth yw eu rhyw)

Gall y canlynol gael eu hystafell wely eu hunain:

- oedolyn sengl (16 oed neu drosodd)
- plentyn y byddai fel arfer yn rhannu ond gymerwyd yr ystafelloedd gwely a rennir eisoes, e.e. bod gennych 3 o blant a bod 2 eisoes yn rhannu
- plant nad ydynt yn gallu rhannu oherwydd anabledd neu gyflwr meddygol
- gofalwr dros nos i chi, eich partner, eich plentyn neu oedolyn arall - dim ond os nad yw'r gofalwr yn byw gyda chi ond weithiau mae'n rhaid iddynt aros dros nos

Caniateir un ystafell wely sbâr ar gyfer:

- gofalwr maeth cymeradwy sydd rhwng lleoliadau ond dim ond am hyd at 52 wythnos o ddiwedd y lleoliad diwethaf
- gofalwr maeth sydd newydd ei chymeradwyo am hyd at 52 wythnos o'r dyddiad cymeradwyo os nad oes unrhyw blentyn yn cael ei leoli gyda hwy yn ystod y cyfnod hwnnw

Ni fydd ystafelloedd a ddefnyddir gan fyfyrwyr ac aelodau o'r lluoedd arfog neu wrth gefn yn cael eu cyfrif fel 'sbâr' os ydynt i ffwrdd ac yn bwriadu dychwelyd adref.

## Rhent preifat

Mae Lwfans Tai Lleol (LHA) yn cael ei ddefnyddio i weithio allan Budd-dal Tai ar gyfer tenantiaid sy'n rhentu'n breifat. Mae faint rydych yn ei gael fel arfer yn seiliedig ar:

- ble rydych yn byw
- maint eich cartref - cewch wybod faint o ystafelloedd gwely rydych yn gymwys amdanynt yn **www.lha-direct.voa.gov.uk/bedroom calculator.aspx** a chyfradd eich LHA yn **www.lha-direct.voa.gov.uk/search.aspx**
- eich incwm - gan gynnwys budd-daliadau, pensiynau a chynilion (dros £6000)
- eich amgylchiadau

## Faint y gallwch ei gael

| Eiddo | Swm wythnosol |
|---|---|
| 1 ystafell wely (neu eiddo a rennir) | Hyd at £268.46 |
| 2 ystafell wely | Hyd at £311.40 |
| 3 ystafell gwely | Hyd at £365.09 |
| 4 ystafell wely | Hyd at £429.53 |

Cysylltwch â'ch cyngor lleol os ydych yn byw mewn:

- cwch preswyl neu angorfa
- safle carafannau
- ystafell gydag unrhyw brydau yn cael eu cynnwys yn y rhent (weithiau a elwir yn gartref preswyl)
- hostel
- eiddo a warchodir gan Ddeddf Rhenti

## Eithriad

Os ydych wedi bod yn cael Budd-dal Tai ers cyn 7 Ebrill 2008, mae'r terfynau hyn ond yn berthnasol os ydych:

- yn newid cyfeiriad
- yn cael toriad yn eich cais am Fudd-dal Tai

## Sut rydych yn cael ei dalu

Mae Budd-dal Tai yn cael ei dalu gan eich cyngor fel a ganlyn:

- tenantiaid y cyngor - i mewn i'ch cyfrif rhent (ni fyddwch yn derbyn yr arian)
- tenantiaid preifat - i mewn i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu (anaml drwy siec)

## Y cap ar fudd-daliadau

Mae'r cap ar fudd-daliadau yn cyfyngu ar faint o fudd-dal y gall y rhan fwyaf o bobl 16 i 64 oed ei gael.

Os ydych yn cael eich effeithio, bydd eich Budd-dal Tai yn mynd i lawr i wneud yn siŵr na fydd cyfanswm y budd-dal a gewch yn fwy na lefel y cap.

## Cymhwyster

Efallai y byddwch yn cael Budd-dal Tai os:

- rydych yn talu rhent
- rydych ar incwm isel neu'n hawlio budd-daliadau
- mae'ch cynilion yn is na lefel benodol - fel arfer £16,000

Gallwch wneud cais os ydych yn gyflogedig neu'n ddi-waith, ond os ydych yn byw gyda phartner, dim ond un ohonoch y gall gael Budd-dal Tai.

Os ydych yn sengl ac o dan 35 oed, gallwch ond cael Budd-dal Tai ar gyfer llety un ystafell neu ystafell sengl mewn llety a rennir.

## Pwy sydd ddim yn gymwys

Fel arfer, ni fyddwch yn cael Budd-dal Tai os:

- yw eich cynilion dros £16,000 - oni bai eich bod yn cael Credyd Gwarantedig y Credyd Pensiwn
- rydych yn byw yng nghartref perthynas agos
- rydych yn fyfyriwr llawn-amser - oni bai eich bod yn anabl neu fod gennych blant
- rydych yn byw yn y DU fel ceisiwr gwaith yr Ardal Economaidd Ewropeaidd
- rydych yn geisiwr lloches neu'n cael eich noddi i fod yn y DU

- rydych yn destun i reolaeth mewnfudo ac mae eich absenoldeb a roddwyd yn nodi na allwch hawlio arian cyhoeddus

Ni allwch gael Budd-dal Tai a Chredyd Cynhwysol ar yr un amser (oni bai eich bod mewn mathau penodol o dai â chymorth).

## Os bydd eich amgylchiadau'n newid

Dywedwch wrth eich cyngor os bydd eich amgylchiadau'n newid gan y gall hyn effeithio ar faint y byddwch yn ei gael.

Er enghraifft, mae plentyn yn gadael yr ysgol, mae eich rhent yn newid neu os ydych yn mynd i ffwrdd am fwy na mis.

Mae'r cap ar fudd-daliadau yn rhoi terfyn ar gyfanswm y budd-dal y gall y rhan fwyaf o bobl rhwng 16 a 64 oed ei gael. Dechreuodd y cap ar fudd-daliadau effeithio ar rai cynghorau lleol o 15 Ebrill 2013.

## Sut i wneud cais

### Os ydych yn hawlio budd-daliadau eraill

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i hawlio Budd-dal Tai gyda'ch cais ar gyfer y budd-daliadau canlynol:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith

Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn anfon manylion eich cais am Fudd-dal Tai i'ch cyngor.

Rhif ffôn: **0800 012 1888**
Ffôn testun: **0800 023 4888**

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn **www.gov.uk/call-charges**

### Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, gallwch gael help i dalu ar gyfer tai gyda'ch taliad Credyd Cynhwysol yn hytrach na chael Budd-dal Tai.

Bydd rhaid i chi dalu rhent i'ch landlord yn uniongyrchol os ydych yn cael Credyd Cynhwysol.

## Os ydych yn hawlio Credyd Pensiwn

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn i hawlio Budd-dal Tai gyda'ch cais am Gredyd Pensiwn.

Bydd y Gwasanaeth Pensiwn yn anfon manylion eich cais am Fudd-dal Tai i'ch cyngor.

Y Gwasanaeth Pensiwn
Ffôn: 0800 99 1234
Ffôn testun: 0800 169 0133

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn www.gov.uk/call-charges

## Os nad ydych yn hawlio budd-daliadau eraill

Gwnewch gais drwy eich cyngor lleol os nad ydych yn hawlio budd-daliadau eraill.

## Beth sydd angen i chi ei wybod

Efallai y byddwch hefyd yn gallu ôl-ddyddio eich cais - gofynnwch i'ch cyngor.

Gallwch wneud cais o flaen llaw hyd at 13 wythnos (neu 17 wythnos os ydych yn 60 oed). Er enghraifft, oherwydd eich bod yn symud. Ni fyddwch fel arfer yn cael unrhyw arian cyn i chi symud.

## Apelio yn erbyn penderfyniad

Gallwch ofyn i'ch cyngor i ailystyried penderfyniad Budd-dal Tai. Os ydych yn anhapus gyda'r ymateb, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad.

## Gwybodaeth bellach

### Cymorth ychwanegol i dalu'r rhent

Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael cymorth ychwanegol gan eich cyngor a elwir yn 'daliad tai dewisol' os nad yw eich Budd-dal Tai yn cwrdd â'ch rhent.

## Help gyda chostau gwresogi

Gwiriwch pa help y gallwch ei gael gyda chostau gwresogi ac ynni yn www.gov.uk/energy-grants-calculator

## Os yw eich budd-daliadau yn cael eu hatal

Mae rhai budd-daliadau yn cael eu hatal os byddwch yn mynd yn ôl i'r gwaith, yn gweithio mwy o oriau neu'n ennill mwy o arian.

Os bydd hyn yn digwydd, gallech gael 4 wythnos o Fudd-dal Tai ychwanegol i'ch helpu i dalu eich rhent. Gelwir hyn yn Daliad Estynedig o Fudd-dal Tai. Os ydych yn gymwys, bydd eich cyngor yn cysylltu â chi. Mae'n rhaid i chi wedi bod yn derbyn rhai budd-daliadau yn barhaus am o leiaf 26 wythnos hyd at yr adeg i chi ddychwelyd i waith.

Unwaith y bydd eich taliad estynedig yn dod i ben, efallai y byddwch yn gallu cael 'Budd-dal Tai mewn gwaith'.

## Sut i wneud cais

Nid oes rhaid i chi wneud cais - bydd eich cyngor yn penderfynu a ydych yn gymwys i gael help ac yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi.

# Cymorth ar gyfer Llog Morgais (SMI)

www.gov.uk/support-for-mortgage-interest

Os ydych yn berchen ar gartref efallai y byddwch yn gallu cael help tuag at daliadau llog ar:

- eich morgais
- benthyciadau rydych wedi eu cymryd allan ar gyfer gwaith atgyweirio a gwelliannau penodol i'ch cartref

Gelwir y cymorth hwn yn Cymorth ar gyfer Llog Morgais (SMI).

Telir fel benthyciad, y bydd angen i chi ei ad-dalu â llog pan fyddwch yn gwerthu neu'n trosglwyddo perchenogaeth eich cartref.

Fel arfer, mae'n rhaid i chi fod yn cael budd-dal cymwys i gael SMI.

Nid oes sicrwydd y byddwch yn cael SMI am fenthyciad byddwch yn cymryd allan.

## Yr hyn a gewch

Os ydych yn gymwys i gael SMI, cewch help i dalu'r llog hyd at £200,000 o'ch benthyciad neu forgais. Mae'r ffigur hwn yn £100,000 os:

- ydych yn cael Credyd Pensiwn
- dechreuoch hawlio budd-dal cymwys arall cyn mis Ionawr 2009

Os ydych eisoes yn cael SMI ac yn symud i Gredyd Pensiwn o fewn 12 wythnos i roi'r gorau i'ch budd-daliadau eraill, byddwch yn dal i gael help gyda llog hyd at £200,000.

Y gyfradd llog a ddefnyddir i gyfrifo faint o SMI a gewch ar hyn o bryd yw 2.61%.

## Sut y telir SMI

Fel rheol telir SMI yn uniongyrchol i'ch benthyciwr.

Gall taliadau ddechrau naill ai:

- o'r dyddiad y byddwch yn dechrau cael Credyd Pensiwn
- ar ôl i chi fod wedi cael Credyd Cynhwysol am 9 mis yn olynol
- ar ôl i chi hawlio unrhyw fudd-dal cymwys arall am 39 wythnos yn olynol

## Beth sydd ddim yn cael ei gynnwys

Ni all SMI eich helpu i dalu:

- y swm a fenthycwyd gennych - dim ond y llog ar eich morgais
- unrhyw beth tuag at bolisïau yswiriant sydd gennych
- taliadau morgais a fethwyd (ôl-ddyledion)

## Beth fyddwch yn ei dalu yn ôl

Telir SMI fel benthyciad. Bydd angen i chi ad-dalu'r arian a gewch â llog pan fyddwch yn gwerthu neu'n trosglwyddo perchenogaeth eich cartref.

Gall y llog sy'n cael ei ychwanegu at y benthyciad gynyddu neu ostwng, ond ni fydd y gyfradd yn newid mwy na dwywaith y flwyddyn. Y gyfradd gyfredol yw 1.5%.

Os ydych am dalu'r benthyciad yn ôl yn gyflymach, gallwch hefyd wneud ad-daliadau gwirfoddol. Yr isafswm ad-daliad gwirfoddol yw £100 neu'r balans sy'n weddill os yw'n llai na £100.

## Cymhwyster

I fod yn gymwys i gael benthyciad Cymorth ar gyfer Llog Morgais (SMI), mae'n rhaid i chi fel arfer fod yn cael un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Cynhwysol
- Credyd Pensiwn

Efallai y byddwch yn dal i allu cael SMI os byddwch yn gwneud cais am un o'r budd-daliadau cymwys ond na allwch ei gael oherwydd bod eich incwm yn rhy uchel. Fe'ch trin wedyn fel eich bod yn cael y budd-dal y gwnaethoch gais amdano.

Ni chewch eich trin fel eich bod yn cael Credyd Cynhwysol os na allwch ei gael oherwydd bod eich incwm yn rhy uchel.

## Sut i wneud cais

Pan fyddwch yn gwneud cais am fudd-dal cymwys, gofynnir cwestiynau ychwanegol i chi am eich costau tai i ganfod a ydych yn gymwys i gael Cymorth ar gyfer Llog Morgais (SMI). Hefyd, efallai yr anfonir ffurflen atoch yn gofyn am wybodaeth fanylach.

Os ydych yn gymwys i gael SMI, cewch gynnig benthyciad.

## Rydych eisoes yn cael budd-dal cymwys

Cysylltwch â'r swyddfa sy'n talu eich budd-dal i ganfod a allwch gael benthyciad SMI.

## Gwybodaeth bellach

Gallwch barhau i gael cymorth ariannol os bydd eich Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm yn dod i ben oherwydd eich bod ar fin:

- dychwelyd i weithio'n llawn-amser
- yn gweithio mwy o oriau
- ennill mwy o arian

Gelwir hyn yn Ddilyniant o Log Morgais.

## Gostyngiad yn eich Treth Cyngor

www.gov.uk/apply-council-tax-reduction

Gwnewch gais i'ch cyngor lleol am Ostyngiad yn eich Treth Gyngor (a elwir weithiau yn Cymorth Treth Cyngor).

Byddwch yn cael gostyngiad ar eich bil os ydych yn gymwys.

Gallech fod yn gymwys os ydych ar incwm isel neu'n hawlio budd-daliadau. Gall eich bil cael ei leihau hyd at 100%.

Gallwch wneud cais os ydych yn berchen ar eich cartref, yn rhentu, yn ddi-waith neu'n gweithio.

Mae'r hyn a gewch yn dibynnu ar:

- lle rydych yn byw - mae pob cyngor yn rhedeg ei gynllun ei hun
- eich amgylchiadau (e.e. incwm, nifer y plant, budd-daliadau, statws preswylio)
- incwm eich cartref - mae hyn yn cynnwys cynilion, pensiynau ac incwm eich partner
- os yw eich plant yn byw gyda chi
- os oes oedolion eraill yn byw gyda chi

## Taliadau Tywydd Oer

www.gov.uk/cold-weather-payment

Efallai y byddwch yn cael Taliad Tywydd Oer os ydych yn cael:

- Credyd Pensiwn
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Cynhwysol

I gael mwy o wybodaeth, ewch i
**www.gov.uk/cold-weather-payment/eligibility**

Cewch daliad os yw'r tymheredd ar gyfartaledd yn eich ardal yn cael ei gofnodi fel, neu y rhagwelir ei fod yn sero gradd selsiws neu'n is am 7 diwrnod yn olynol.

Byddwch yn cael £25 am bob cyfnod 7 diwrnod o dywydd oer iawn rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth.

Ar ôl pob cyfnod o dywydd oer iawn yn eich ardal, dylech gael taliad o fewn 14 diwrnod gwaith. Caiff ei dalu i mewn i'r un cyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu a'ch taliadau budd-dal.

Nid yw Taliadau Tywydd Oer yn effeithio ar eich budd-daliadau eraill.

### Sut i wneud cais

Nid oes angen i chi wneud cais. Os ydych yn gymwys i gael Taliad Tywydd Oer, caiff ei dalu'n awtomatig.

### Os oes gennych faban neu blentyn o dan 5 oed sy'n dod i fyw gyda chi

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm bydd angen i chi ddweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith os:

- rydych wedi cael babi
- bod plentyn o dan 5 wedi dod i fyw gyda chi

Ni fyddwch yn cael Taliadau Tywydd Oer yn awtomatig os na wnewch chi.

### Os nad ydych yn cael eich Taliad Tywydd Oer

Dywedwch wrth eich canolfan bensiwn neu'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith os ydych chi'n meddwl nad ydych wedi cael Taliad Tywydd Oer y dylech wedi ei gael.

## Taliadau Tanwydd Gaeaf

www.gov.uk/winter-fuel-payment

Os cawsoch eich geni ar neu cyn 5 Awst 1953 gallech gael rhwng £100 a £300 i helpu i dalu'ch biliau gwresogi. Gelwir hyn yn 'Taliad Tanwydd Gaeaf'.

Mae'r rhan fwyaf o daliadau yn cael eu gwneud yn awtomatig rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

Fel arfer, byddwch yn cael Taliad Tanwydd Gaeaf yn awtomatig os ydych yn gymwys ac yn cael Pensiwn y Wladwriaeth neu fudd-dal nawdd cymdeithasol arall (nid Budd-dal Tai, Gostyngiad yn eich Treth Cyngor, Budd-dal Plant neu Gredyd Cynhwysol).

Os ydych yn gymwys, ond nid ydych yn cael ei dalu'n awtomatig, bydd angen i chi wneud cais.

Ni fydd unrhyw arian a gewch yn effeithio ar eich budd-daliadau eraill.

**Cymhwyster**

Byddwch yn gymwys i gael Taliad Tanwydd Gaeaf os:

- cawsoch eich geni ar 5 Awst 1953 neu cyn hynny
- byddwch yn byw yn y DU drwy gydol yr wythnos o 19 i 25 Medi 2018

Efallai y byddwch yn gallu cael y taliad os ydych yn byw yn y Swistir neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) ac mae gennych gysylltiad gwirioneddol â'r DU.

**Pan na fyddwch yn gymwys**

Ni fyddwch yn gymwys os ydych:

- yn yr ysbyty yn cael triniaeth am ddim am fwy na blwyddyn
- mae angen caniatâd i chi fynd i mewn i'r DU a dywed eich caniatâd a roddir na allwch hawlio arian cyhoeddus
- yn y carchar am yr wythnos gyfan rhwng 18 a 24 Medi 2018
- wedi byw mewn cartref gofal am yr holl amser rhwng 25 Mehefin a 19 Medi 2018, a chawsoch Gredyd Pensiwn, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

**Sut i wneud cais**

Os ydych yn gymwys i gael Taliad Tanwydd Gaeaf, byddwch fel arfer yn ei gael yn awtomatig.

Mae angen i chi ei hawlio os nad ydych wedi ei gael o'r blaen ac mae unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- nad ydych yn cael budd-daliadau neu Bensiwn y Wladwriaeth
- rydych yn cael budd-daliadau neu Bensiwn y Wladwriaeth ond yn byw yn y Swistir neu yn wlad yr AEE
- rydych ond yn cael Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth Cyngor neu Fudd-dal Plant

Mae angen i chi hefyd hawlio Taliad Tanwydd Gaeaf os ydych wedi gohirio'ch Pensiwn y Wladwriaeth, hyd yn oed os oeddech wedi ei gael o'r blaen. Dim ond unwaith y bydd angen i chi wneud hyn.

**Gwneud cais am y tro cyntaf dros y ffôn**

Ffoniwch y Ganolfan Taliadau Tanwydd Gaeaf i wneud cais dros y ffôn.

**Canolfan Taliad Tanwydd Gaeaf**

Ffôn: 0800 731 0160
Ffôn y tu allan i'r DU: +44 (0) 191 218 7777
Ffôn testun: 0800 731 0464
Y tua allan i'r DU, rhif ffôn testun: +44 (0) 191 218 7280

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn www.gov.uk/call-charges

**Ble i anfon eich ffurflen gais**

Anfonwch eich cais i'r cyfeiriad canlynol os ydych yn y DU.

Winter Fuel Payment Centre
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1LR

Anfonwch eich cais i'r cyfeiriad canlynol os ydych yn wlad arall yr AEE neu'r Swistir.

Winter Fuel Payment Centre
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1ZU
UK